COURSE INFORMATION

Coaching and Mentoring in the workplace
An online programme for Third Sector CEOs /Board Chairs

INTRODUCTION:

Within the Third Sector, the role of the Chief Executive Officer (CEO)/Board Chair can be rather isolating; the demands and pressures of the role often limit opportunities for both professional and personal development of senior people within the organisation. Rural settings often exacerbate this sense of isolation.

In recent times, however, coaching and mentoring have been identified as one of the most efficient, economic and effective ways of countering this sense of isolation "at the top", enabling individuals to work within a 1:1 confidential and trusted relationship to share issues of concern, tackle problems and explore solutions.

CAVS is offering an exciting initiative in which CEOs and Board Chairs will be able to work together to experience a practical skills-based coaching and mentoring learning programme while simultaneously working as pairs in peer coach/mentoring relationships. Pairs could be 2 Chairs each from different organisations; 2 CEOs from different organisations; or even a Chair paired with a CEO from a different organisation.

In its online form, the programme is delivered over a period of ten weeks – 10 x 2-hour workshops. This will enable us to provide support in the early stages of the relationship and help with any "trouble shooting" that might be required.

As well as providing support to each participating CEO/Board Chair, their host organisations will also benefit through the learning programme itself. The resources provided will enable individuals to transfer the learning to their own workplace. This will help to ensure sustainability and provide a tangible return on the investment.

There is an Introductory briefing session scheduled Thursday 2nd December via Zoom 15.00 – 16.30. During this session you will be able to get a sense of how the programme works and what professional resources will be part of the process. This also the opportunity to ask any questions of clarification about the programme, its benefits, and what is expected.

PROGRAMME OUTLINE

AIM: To equip participants (maximum 10) with the

- ❑ Skills
- ❑ Knowledge
- ❑ Understanding

to enable them to work effectively as Peer Coach/Mentors in the workplace

OBJECTIVES: By the end of the training workshop programme, participants will have:

1. Understood what mentoring and coaching at work **are** and **are not**
2. Understood the difference between coaching and mentoring
3. Identified the "Six Building Blocks" essential for effective coach/mentoring
4. Identified and applied the five key skills of coach/mentoring in the workplace
   - Building rapport
   - Active Listening
   - Asking Insightful questions
   - Providing feedback
   - Promoting commitment to action
5. Practised coach/mentoring conversations and received feedback
6. Carried out an observed session and received feedback based on the European Mentoring and Coaching Council's Competence Standards for Coaching and Mentoring in the Workplace
7. Gained a methodology and resources which will enable transfer to individual organisations.

METHODOLOGY

- Participants will work online, including in small "break-out" groups
- Participants will undertake and review relevant self-assessments and audits
- Methods will be highly participative and interactive

- Learning will be supported by a comprehensive and practical toolkit.

COURSE FEE: £400 per organisation (for 2 participants 1 CEO &1 Board Chair)

Introductory Briefing: Thursday 2nd December 2021 3.00 p.m. – 4.30 p.m.

PROPOSED DATES: 10 x 2-hour workshops Wednesday 4.00 p.m. – 6.00 p.m.

Wednesday 5th, 12th 19th & 26th January 2022
Wednesday 2nd, 9th & 16th February 2022
Wednesday 1st, 8th & 15th March 2022

Please Note: Course dates & times will be finalised at the Introductory meeting Thursday 2nd December 15.00 – 16.30

GWYBODAETH AM Y CWRS

Hyfforddi a Mentora yn y gweithle
Rhaglen ar-lein ar gyfer Prif Weithredwyr/Cadeiryddion Byrddau yn y Trydydd Sector

CYFLWYNIAD:

Yn y Trydydd Sector, mae rôl y Prif Weithredwr/Cadeirydd y Bwrdd yn gallu bod braidd yn ynysig; mae gofynion a phwysau'r rôl yn aml yn cyfyngu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol a phersonol pobl mewn swyddi uwch yn y mudiad. Mae lleoliadau gwledig yn aml yn ychwanegu at yr ymdeimlad yma o arwahanrwydd.

Yn ddiweddar, fodd bynnag, gwelwyd fod hyfforddiant a mentora yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithlon, economaidd ac effeithiol o fynd i'r afael â'r ymdeimlad hwn o arwahanrwydd "ar y brig", gan alluogi unigolion i weithio o fewn perthynas 1:1 gyfrinachol ac yn seiliedig ar ymddiriedaeth er mwyn rhannu materion sy'n achosi pryder, mynd i'r afael â phroblemau a chwilio am atebion.

Mae CAVS yn cynnig menter gyffrous fydd yn rhoi cyfle i Brif Weithredwyr a Chadeiryddion Byrddau weithio gyda'i gilydd i brofi rhaglen ddysgu ymarferol hyfforddi a mentora yn seiliedig ar sgiliau tra'n gweithio ar yr un pryd mewn parau mewn perthnasoedd hyfforddydd cyfoed/mentora. Gallai parau fod yn 2 Gadeirydd o fudiadau gwahanol; 2 Brif Weithredwr o fudiadau gwahanol; neu hyd yn oed Gadeirydd wedi'i b/pharu â Phrif Weithredwr o fudiad gwahanol.

Ar ei ffurf ar-lein, cyflwynir y rhaglen dros gyfnod o ddeng wythnos – 10 gweithdy x 2 awr. Bydd hyn yn ein galluogi i gynnig cymorth yn ystod cyfnodau cynnar y berthynas a helpu gydag unrhyw anawsterau allai fod angen sylw.

Yn ogystal â chynnig cefnogaeth i bob Prif Weithredwr/Cadeirydd sy'n cymryd rhan, bydd eu mudiadau hefyd yn elwa o'r rhaglen ddysgu ei hun. Bydd yr adnoddau a ddarperir yn galluogi unigolion i drosglwyddo'r dysgu i'w gweithleoedd eu hunain. Bydd hyn yn helpu sicrhau cynaliadwyedd ac yn cynnig ad-daliad diriaethol ar y buddsoddiad.

Trefnwyd sesiwn gyflwyno ar gyfer dydd Iau 2 Rhagfyr trwy Zoom 15.00 – 16.30. Yn ystod y sesiwn hon fe gewch ymdeimlad o sut mae'r rhaglen yn gweithio a pha adnoddau proffesiynol fydd yn rhan o'r broses. Dyma'r cyfle hefyd i ofyn unrhyw gwestiynau a chael eglurhad am y rhaglen, ei manteision a beth a ddisgwylir.

BRASLUN O'R RHAGLEN

NOD: Rhoi i'r sawl sy'n cymryd rhan (uchafswm o 10) y

- ❑ Sgiliau
- ❑ Gwybodaeth
- ❑ Dealltwriaeth

i'w galluogi i weithio'n effeithiol yn Hyfforddwyr/Mentoriaid Cyfoed yn y gweithle.

AMCANION: Erbyn diwedd y rhaglen o weithdai hyfforddi, bydd y sawl a gymerodd ran:

1. Wedi deall **beth yw** a **beth nad yw** mentora a hyfforddiant yn y gwaith
2. Wedi deall y gwahaniaeth rhwng hyfforddiant a mentora
3. Wedi adnabod y "Chwe Bloc Adeiladu" sy'n hanfodol ar gyfer hyfforddi/mentora effeithiol
4. Wedi adnabod a defnyddio pump sgil allweddol hyfforddi/mentora yn y gweithle

- Meithrin cydberthynas
- Gwrando Gweithredol
- Gofyn cwestiynau treiddgar
- Cynnig adborth
- Hyrwyddo ymrwymiad i weithredu

5. Wedi ymarfer sgyrsiau hyfforddi/mentora a chael adborth
6. Wedi cynnal sesiwn wedi'i harsylwi a chael adborth yn seiliedig ar Safonau Cymhwysedd y Cyngor Mentora a Hyfforddi Ewropeaidd ar gyfer Hyfforddi a Mentora yn y Gweithle
7. Wedi dysgu methodoleg a chael adnoddau fydd yn golygu y gellir trosglwyddo'r hyn a ddysgwyd i fudiadau unigol.

METHODOLEG

- Bydd cyfranogwyr yn gweithio ar-lein, gan gynnwys mewn grwpiau bychain
- Bydd cyfranogwyr yn cynnal ac adolygu hunanasesiadau ac archwiliadau perthnasol

- Bydd y dulliau yn hynod gyfranogol a rhyngweithiol
- Cefnogir y dysgu gan becyn gwaith cynhwysfawr ac ymarferol.

FFI'R CWRS: £400 y mudiad (ar gyfer 2 berson 1 Prif Weithredwr & 1 Cadeirydd Bwrdd)

Cyflwyniad Rhagarweiniol: Dydd Iau 2 Rhagfyr 2021 3.00 p.m. – 4.30 p.m.

DYDDIADAU A AWGRYMIR: 10 gweithdy x 2 awr Dydd Mercher 4.00 p.m. – 6.00 p.m.

Dydd Mercher 5, 12, 19 & 26 Ionawr 2022
Dydd Mercher 2, 9 & 16 Chwefror 2022
Dydd Mercher 1, 8 & 15 Mawrth 2022

Sylwer: Bydd dyddiadau & amserau'r cwrs yn cael eu terfynoli yn y cyfarfod Rhagarweiniol ar ddydd Iau 2 Rhagfyr 15.00 – 16.30